# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**20 HYDREF 2020**

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. S. Waters, Rheolwr Priffyrdd a Chludiant;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 9:30yb - 9.40yb

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIAD - 8FED HYDREF, 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau o gyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2020 gan ei fod yn gofnod cywir.**

## 3. SHOPMOBILITY CAERFYRDDIN

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch cefnogi Shopmobility Caerfyrddin drwy grant pellach o £19,650 am 12 mis o fis Medi 2020, sy'n cynnwys y swm gweithredol arferol o £14,650 ynghyd â £5,000 i dalu am yr incwm a gollwyd yn ystod pandemig Covid-19.

Cydnabuwyd bod Shopmobility wedi cael cymorth gan y Cyngor ers 2011 a'i fod wedi cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian. Fodd bynnag, roedd yn dibynnu'n bennaf ar gefnogaeth ariannol gan y Cyngor. Nodwyd hefyd fod Shopmobility yn un o blith nifer o fentrau oedd yn cael eu hyrwyddo gan yr Awdurdod a'i fod yn bodloni ei flaenoriaethau strategaeth barcio.

**PENDERFYNWYD rhoi grant pellach o £19,650 i gynorthwyo Shopmobility Caerfyrddin am gyfnod o 12 mis arall, gan gychwyn ym mis Medi 2020, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.**

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** ________________________

**DYDDIAD** ________________